Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 No. 613

Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar LefelauTaliadau) (Cymru) 2008

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Traffig (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 31 Mawrth 2008, ac mae'n gymwys i Gymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn: ystyr "y Rheoliadau Gorfodi a Dyfarnu" ("*the Enforcement and Adjudication Regulations*") yw Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Tâl Cosbau, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008(**1**).

(3) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Rheoliadau Darpariaethau Cyffredinol" ("*the General Provisions Regulations*") yw Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008(**2**).

(**1**) O.S. 2008/609.
(**2**) O.S. 2008/614 (Cy.66).